

# Y ffordd i Emaus

**www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther**




**Wedi i Iesu farw roedd ei ffrindiau'n drist iawn. Doedden nhw ddim yn deall fod ei farwolaeth yn rhan o gynllun rhyfeddol Duw!**



**Roedd dau ffrind yn cerdded yn ddigalon iawn ar hyd y ffordd i Emaus. Tra roedden nhw wedi bod yn Jerwsalem roedd Iesu wedi cael ei ladd ar groes.**



**Roedd y dynion hyn a'u ffrindiau wedi meddwl mai Iesu oedd y Mab roedd Duw wedi ei addo i Israel. Yn awr roedd rhai o ffrindiau Iesu'n dweud ei fod wedi dod yn ôl o farw'n fyw.**




**Tra roedden nhw'n sgwrsio, daeth dyn dieithr a dechreuodd gyd gerdded â nhw. "Pam ydych chi mor ddigalon?"gofynnodd iddynt. "Mae'r holl bethau hyn wedi eu hysgrifennu amdanynt yn y Beibl."**



**Dywedodd y dyn dieithr wrthynt fod y cyfan a ddigwyddodd i Iesu'n rhan o gynllun Duw. Enynnodd ei eiriau obaith yn eu calonnau.**



**Pan gyrhaeddon nhw adref fe wnaethon nhw wahodd y dyn dieithr i'w cartref am bryd o fwyd. Cymerodd y dyn y bara a'i dorri ac yna diolchodd i Dduw amdano.**



**Yna diflannodd y dieithryn! Iesu oedd wedi diolch am y bara a'i dorri! Roedd y ddau ffrind yn gwybod eu bod wedi gweld Iesu! Roedd o'n fyw!**



**Rhedon nhw ar eu hunion i Jerwsalem i ddweud wrth holl ffrindiau Iesu eu bod wedi ei weld ac am bopeth roedd o wedi eu dweud wrthynt amdano ei hun ac a ysgrifennwyd amdano yn y Beibl .**